CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
6 Tachwedd 2019, CANOLFAN PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, E Williams, N Jones, D Gwyn, A Mummery, S Hughes, O Evans, L Roberts, M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng Cyng R Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 02.10.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng S Hughes yn cynnig a Cyng E Williams yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Datblygu'r maes chwarae** - Mae Cyngor Ynys Môn yn cynnig grantiau. Bydd y Clerc yn trefnu cael prisiau am "walkway" ac yn cyflwyno cais am grant cyn y dyddiad cau 30.11.19
4.2	**BDO Archwilwyr Allanol.** Disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru.
4.3	**Torri coed Penmynydd (Scottish Power)** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.4	**Camerau cylch-cyfyng ar yr A55** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.5	**Llwybrau Cyhoeddus** - Cliriwyd y mater yn y cyfarfod diwethaf
4.6	**Broadband** - Mae Menter Mon yn gweithio gyda rhai ardaloedd ynglŷn a broadband. Mae cyfarfod i'w gynnal yn fuan. Bydd y Cadeirydd y Cynghorydd D I Roberts ynghyd â'r Cynghorwyr Sir A Mummery ac R Willams yn mynychu'r cyfarfod.
4.7	**Bryn Ffynnon, Star** - Mae'r gwaith wedi'i cael ei wneud
4.8	**Ardaloedd o harddwch arbennig** - Bydd y Cadeirydd Cyng D I Roberts yn cynrychioli Unllais Cymru mewn cyfarfod sydd yn cael ei drefnu
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN**
	Tai
5.1	Bryn Ffynnon, Star - Darllenwyd ebost gan yr Adran Tai yn cadarnhau bod y gwaith wedi dechrau 22.10.19
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalur' canlynol:
7.1	Cyngor Gwynedd £150.00 (archwilio)
7.2	Ol-dyled cyflog y Clerc £266.72 Treth incwm £58.24
7.3	Costau y Clerc £178.35
	Llofnod **Cadeirydd** **07.01.20**

7.4	Torch £18.50 (Sul y Cofio)
7.5	Pwyllgor Canolfan Penmynydd £120.00 (Incwm rhent wedi'i dderbyn gan Cyngor Ynys Môn)
7.6	Adroddiad BDO 2018/19. Darllenwyd addroddiad BDO: 1 Nid yw'r ffigurau cymharol a ddatgelwyd yn adran 2 y FfurflenFynyddol yn cytuno a'r Ffurflen Flynyddol sydd wedi'i harchwilio ar gyfer llynedd. Credwn fod y ffigurau wedi eu nodi mewn camsyniad ond nid yw'r camsyniad yn effeithio ar y balans a ddygwyd ymlaen i'r flwyddyn gyfredol. 2 Nid yw'r Cyngor yn cofnodi cymeradwyaeth y ffurflen flynyddol sy'n cynnwys y Datgtaniadau Cyfrifo ac ymatebion y Cyngor i'r Datganiadau Llywodraethiant Blynyddol. Nid yw y Cyngor yn cytuno a'r mater. Cofnodwyd cymeradwyaeth y ffurflen flynyddol yn y cyfarfod 02.01.19. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw BDO 3 Nid yw'r Cyngor wedi nodi dyddiad y cofnod yn cadarnhau'r datganiad cyfrifo a'r datganiad llywodraethiant blynyddol
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Defibrillator - Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf
8.2	Mynwent Gilead. trafodwyd cyflwr y fynwent. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r ysgrifenyddes adeiladau i gofyn faint mor amal bydd y fynwent yn cael ei dorri
8.3	Gor-yrru Star. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir i ymchwilio y mater
8.4	Canolfan Penmynydd. Dywedodd y Cadeirydd bod y ganolfan wedi cael piano am ddim, mae'r problem gyda'r boiler am cael ei wneud, bydd y pwyllgor yn cyflwyno cais am arian gan y lottery a bydd ffair Nadolig yn cael ei gynnal 02.12.19
8.5	Sul y Cofio - Mae Cyng A Mummery wedi trefnu cael torch a bydd Cyng N Jones a L Roberts yn cynrychioli y Cyngor
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Bus Shelter Star
	Llofnod **Cadeirydd** **07.01.20**